

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'r enw Adroddiad yr ymchwiliad i'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol

MAWRTH 2017

Ar 2 Chwefror 2017 cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar ei ymchwiliad i'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol. Paratowyd yr adroddiad yn sgil cynnal ymchwiliad byr rhwng mis Hydref - Tachwedd 2016. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar weithredu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol ac effaith Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant dystiolaeth ysgrifenedig fel sail i'r ymchwiliad ac fe aeth i gyfarfod briffio â'r Pwyllgor ar 14 Rhagfyr. Dywedodd wrthynt ei fod wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu i symud ymlaen gyda'r 'Dull Cenedlaethol' ar lefel ranbarthol, sydd i fod yn ei le erbyn mis Gorffennaf 2017, a'i fod hefyd wedi cytuno i ymrwymo hyd at £550,000 ar gyfer y Dull Cenedlaethol.

Roedd 8 argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn yr Adroddiad.

Nodir ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a geir yn yr Adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn sicrhau bod pob awdurdod lleol wedi ymrwymo'n weithredol i'r 'Dull Cenedlaethol' erbyn mis Ionawr 2017.

Ymateb: Derbyn

Mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet, dyddiedig 13 Rhagfyr 2016, cadarnhaodd CLILC fod cefnogaeth genedlaethol wedi ei chael ar gyfer y dull gan y 22 o arweinwyr hyd yma ac ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Hefyd, ailddatganwyd eu hymrwymiad i'r Cynllun Gweithredu.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r 'Dull Cenedlaethol' ar waith yn llawn erbyn mis Mehefin 2017, yn unol â'r amserlen yn y Cynllun Gweithredu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau cyson â'r Rheolwr Gweithredol i gael y newyddion diweddaraf am y cynnydd a wneir, a bydd y Dull Gweithredu yn siŵr o fod yn ei le erbyn mis Mehefin 2017.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i adlewyrchu'r 'Dull Cenedlaethol'.

Ymateb: Derbyn

Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru ddiweddarau'r Cod Ymarfer ar Eirioli er mwyn ystyried y Dull Cenedlaethol. Bydd grŵp technegol yn cael ei sefydlu'r gwanwyn hwn i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y newidiadau i'r Cod y gellir eu gosod yn sgil yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer Safonau a Chanlyniadau Eiriolaeth.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gwariant yr awdurdodau lleol ar wasanaethau eiriolaeth statudol yn flynyddol, ac yn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu hariannu yn unol â'r asesiad dadansoddi anghenion y boblogaeth.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno darparu hyd at £550,000 i'r rhanbarthau drwy grant rhanbarthol ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Bydd y Grant yn cynnwys telerau ac amodau i alluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant ar gyfer dwy flynedd gyntaf rhoi ar waith. Wedi hynny, fe'i rhoddir mewn Grant Cynnal Refeniw (RSG) a bydd y monitro'n digwydd drwy Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddrafft ac yn cyhoeddi Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol terfynol, sy'n cynnwys dull gweithredu o ran y 'cynnig gweithredol' erbyn mis Mehefin 2017.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Dull yn cynnwys Fframwaith Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer Safonau a Chanlyniadau Eiriolaeth (NSOF), y cam nesaf i Lywodraeth Cymru yw ymgynghori â rhanddeiliaid ar y datganiad canlyniadau sydd yn NSOF a datblygu drafft terfynol o'r Fframwaith. Mae'n fwriad gennym ymgynghori erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o gynnydd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf y bydd y 'Dull Cenedlaethol' ar waith.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hyn mewn egwyddor a bydd yn cydweithio ag ADSS Cymru ar gwmpas ac amseriad adolygiad.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y mae llinell gymorth MEIC Cymru yn cyd-fynd â'r Dull Cenedlaethol ac yn sicrhau bod ymgysylltiad effeithiol rhwng gwasanaethau eiriolaeth statudol a darpariaeth eiriolaeth gyffredinol, i wneud y defnydd mwyaf effeithlon posibl o adnoddau ac o'r amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc fel rhan o'r cynnig gweithredol.

Ymateb: Derbyn

Mae gan linell gymorth genedlaethol MEIC, rôl bwysig o ran darparu gwasanaeth eirioli agored i bob plentyn. Mae'r Dull Cenedlaethol yn ymwneud â chomisiynu a darparu eiriolaeth statudol i blant cymwys sydd angen gofal a chymorth, sydd yn rhywbeth nad yw'n cael ei ddarparu gan y llinell gymorth.

Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ddarpariaeth ehangach o wasanaeth eirioli, gan gynnwys, Meic, a sut y maent yn cyd-fynd â'i gilydd.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad manwl i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu 'Dull Cenedlaethol' ym mis Mehefin 2017.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cynllun Gweithredu'r Dull Cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru) a fydd yn adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru drwy'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth a fydd yn ei dro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd.

Y goblygiadau ariannol –

Amcangyfrifir y bydd gweithredu'r Dull Cenedlaethol yn costio rhwng £1 ac £1.1 miliwn. Mae hyn yn cynnwys dyraniad o hyd at £550,000 fel 'cynnig gweithredol' a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant